

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Ffordd Osgoi'r Felinheli,
Gwynedd) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2019

The A487 Trunk Road (Y Felinheli
Bypass, Gwynedd) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restrictions)
Order 2019

Gwnaed 4 Mehefin 2019

Made 4 June 2019

Yn dod i rym 7 Mehefin 2019

Coming into force 7 June 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi'r Felinheli, Gwynedd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 7 Mehefin 2019.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Y Felinheli Bypass, Gwynedd) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2019 and it comes into force on 7 June 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Aclub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor yn Y Felinheli, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Plas Menai i'w chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan y Faenol;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai gerbyttffordd tua'r gogledd neu gerbyttffordd tua'r de y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 yn weithredol.

Cymhwysio

8.—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor Trunk Road at Y Felinheli, Gwynedd that extends from its junction with the north-eastern side of Plas Menai Roundabout to its junction with the southern side of Faenol Roundabout;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 08:00 hours on 7 June 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the northbound or southbound carriageway of the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road.

6. No person may, during the works period, drive any vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road during such times as the restriction referred to in article 6 is in operation.

Application

8.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y

4 Mehefin 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5 and 6 are in operation.

Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

4 June 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(FFORDD OSGOI'R FELINHELI, GWYNEDD)
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU
TRAFFIG DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar Ffordd Osgoi'r Felinheli yr A487, neu gerllaw iddi, yn y Felinheli, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith) a phob beiciwr rhag mynd ar gerbyttfordd tua'r gogledd neu gerbyttfordd tua'r de yr A487 rhwng ei chyffyrdd â Chylchfan Plas Menai a Chylchfan y Faenol.

Y llwybr arall ar gyfer traffig pan fo'r gerbyttfordd tua'r gogledd ar gau yw mynd tua'r gogledd ar Ffordd Caernarfon drwy bentref y Felinheli, Stryd Bangor a'r B4547 i ailymuno â'r A487 wrth Gylchfan y Faenol: i'r gwrthwyneb pan fo'r gerbyttfordd tua'r de ar gau.

ii. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar ddwy gerbyttfordd yr A487 a ddisgrifir uchod. Bydd y terfyn cyflymder o 40 mya yn weithredol drwy gydol cyfnodau'r gwaith ond dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym am 08:00 o'r gloch ar 7 Mehefin 2019 ac yn weithredol, yn ysbeidiol, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaaf.

Dim ond yn ystod y nos (20:00 – 07:00 o'r gloch) y disgwylir y bydd y cerbyttfyrdd ar gau, ac ni fydd y ddwy gerbyttfordd ar gau ar yr un pryd. Bydd hysbysiad am gau'r cerbyttfyrdd hyn yn cael ei arddangos cyn i bob cyfnod o'r gwaith ddechrau a bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://gwyddill.llyw.cymru/legislation/subordinate) ar <https://gwyddill.llyw.cymru/legislation/subordinate>: (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchymynion traffig dros dro/ 2019).

**THE A487 TRUNK ROAD (Y FELINHELI
BYPASS, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER
2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A487 Y Felinheli Bypass at Y Felinheli, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) and cyclists from proceeding on either the northbound or southbound carriageway of the A487 between its junctions with Plas Menai Roundabout and Faenol Roundabout.

The alternative route for traffic during a northbound carriageway closure is via the northbound Caernarfon Road through Y Felinheli village, Bangor Street and B4547 to re-join the A487 at Faenol Roundabout: vice versa for a southbound carriageway closure.

ii. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on both carriageways of the A487 described above. The 40 mph will operate at all time during work periods but the 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The temporary prohibitions and restrictions are expected to come into force at 08:00 hours on 7 June 2019 and operate intermittently for a maximum duration of 18 months.

Carriageway closures are only expected to be in force overnight (20:00 – 07:00 hours) and both carriageways will not be closed simultaneously. Notice of these closures will be displayed before the start of each period of works and advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gwyddill.gov.wales/legislation/subordinate> (Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government